# Cynhaliaeth

## Darlleniad 1: Salm 18: 1-18
## Darlleniad 2: Ioan 6: 27-35

'Moliannwn Di, O! Arglwydd,
Wrth feddwl am dy waith
Yn llunio bydoedd mawrion
Y greadigaeth faith;
Wrth feddwl am dy allu
Yn cynnal yn eu lle
Drigfannau'r ddaear isod
A phreswylfeydd y ne.'

Ti, O! Arglwydd, yw ein crëwr a'n cynhaliwr. Ynot ti rydym yn byw, yn symud ac yn bod. Dywedwn fel y Salmydd '... bu'r Arglwydd yn gynhaliaeth imi'.

Molwn di am dy greadigaeth a'r gynhaliaeth a gawn i'n cyrff. Creaist y ddaear fel ei bod yn ein bwydo; derbyniwn yn helaeth o'i chynnyrch bob dydd o'n hoes.

'Cysgod, bwyd a dillad
Ti a'u rhoddaist im.'

Dyma yw cri pob un ohonom. Derbyn ein diolch am y digonedd a dderbyniwn, ond maddau inni am ein hunanoldeb, a'n hamharodrwydd i rannu ag eraill. Gwyddom fod digon o gynhaliaeth i bawb trwy'r holl fyd, ond maddau inni am besgi cymaint tra bod eraill yn newynu. Cynorthwya ni, O! Arglwydd, i gyflawni dy fwriad trwy ymdrechu'n galetach i sicrhau cynhaliaeth i bawb.

Molwn di am y gynhaliaeth a gawn i'n meddyliau. Derbyniasom addysg yn ein cartrefi, yn ein hysgolion dyddiol a'n hysgolion Sul. Cawsom wybodaeth a gwirioneddau a fu'n gynhaliaeth faethlon i'n meddyliau. Diolchwn yn arbennig i ti am 'ddidwyll laeth y gair', ac am inni gael ein dysgu nad 'ar fara yn unig y bydd byw dyn, ond ar bob gair a ddaw allan o enau Duw ei hun'. Maddau i ni, O!

Arglwydd, am anghofio hyn ac am inni geisio 'y bwyd sy'n darfod', yn hytrach na'r 'bwyd sy'n parhau i fywyd tragwyddol'. Cynorthwya ni, O! Arglwydd, i geisio Iesu Grist, yr hwn yw 'bara'r bywyd', y bywyd sydd yn fywyd yn wir. Dyro i ni archwaeth newydd amdano ef, fel y cawn ei dderbyn o'r newydd ym mhregethau'r Gair ac yng ngweinyddu'r sacramentau.

Molwn di am y gynhaliaeth a gawn i'n hysbryd. Derbyniasom gymaint o gymorth oddi wrth ein teuluoedd, oddi wrth ein ffrindiau gorau, ac oddi wrth dy eglwys. Diolchwn i ti am ein cynnal ar adegau anodd bywyd, pan oedd siom a hiraeth, ofnau a phryderon bron â'n llethu. Pan oedd ein hysbryd yn isel, buost mor agos atom trwy eraill yr oedd eu cyfeillgarwch a'u gofal amdanom yn gynhaliaeth wirioneddol i ni. Derbyn ein diolch am gyfeillion da. Cynorthwya ni, O! Arglwydd, i fod yn gyfeillion da i'n gilydd fel y medrwn gario beichiau'r naill a'r llall. Ti a wyddost am ambell ddolur sy'n aros, ac am yr ing sydd mewn aml i galon. Gweddïwn gyda'r emynydd:

'Tydi, ddiddanydd mawr y saint,
Yn nydd yr haint echryslon,
O dyro dy dangnefedd pur
I symud cur y galon.'

Cyflwynwn i ti bawb sy'n cynnal eraill trwy eu gwaith o ddydd i ddydd, gan gyfrannu tuag at iechyd, corff, meddwl ac ysbryd y rhai sydd o dan eu gofal - meddygon a gweinyddesau; gweithwyr cymdeithasol; y rhai sy'n gofalu am blant, yr ifanc, yr hen a'r methedig; gweithwyr dy eglwys, gweinidogion, blaenoriaid ac athrawon; cenhadon dy Eglwys ledled y byd.

Gweddïwn y bydd i ti barhau i'w cynnal. Dyro iddynt nerth i ddyfalbarhau a gweledigaeth eglur o'u rhan yng ngwaith dy deyrnas. Dyro iddynt sylweddoli eu bod yn cydweithio â thi. Cynorthwya hwy a ninnau bob amser i droi atat i geisio'r gynhaliaeth honno, a gwna ni'n fwy effeithiol yn ein gwaith ac yn ein tystiolaeth. Cynorthwya ni oll i fedru dweud drachefn, 'Bu'r Arglwydd yn gynhaliaeth i mi ...' Clyw ein gweddi yn enw Iesu Grist. Amen.

*Eric Jones*